# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD DYDD GWENER, 24 MEHEFIN 2016

**YN BRESENNOL:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. John Arwel Roberts

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Gwen Griffith
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Dyfrig Jones

**Swyddogion:**
Rhun ap Gareth Uwch Gyfreithiwr (CG), Nia Haf Davies Rheolwr – UPCC, Gareth Jones Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (CG), Dylan Williams Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM), WE Jones Uwch Reolwr Cyllid (CG), Eirian Harris Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC

## 1. ETHOL CADEIRYDD AM 2016 - 2017

Cafodd Cyng Dafydd Meurig ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phanel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 2016 – 2017.

## 2. ETHOL IS - GADEIRYDD AM 2016 - 2017

Cafodd Cyng Richard Dew ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phanel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 2016 – 2017

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. John Brynmor Hughes (CG), Cyng. Michael Sol Owen (CG) – Eilydd a Cyng. John Pughe Roberts (CG)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

Cafodd Dylan Williams ei gyflwyno fel Pennaeth Adran newydd Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn dilyn ymddeoliad Jim Woodcock. Fe wnaeth o roi amlinelliad o rai o'r materion a phrosiectau fydd angen sylw yn ystod y misoedd nesaf, sydd yn cynnwys rhoi

Cyngor Sir Ynys Môn mewn lle da i allu manteisio ar y cyfleon trawsnewidiol. Bydd mabwysiadu'r Cynllun yn gam pwysig yn ogystal a adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol am Wylfa newydd.

## 6. COFNODION

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 29 Ionawr 2016 fel y rhai cywir ac fe wnaeth y Cadeirydd eu harwyddo.

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad gan Gareth Jones a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'n ofyniad statudol bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi. Eglurwyd bod gofynion y Rheoliadau wedi newid ers y llynedd. Golyga hyn na fydd angen cyflwyno'r Datganiad i'r Pwyllgor eto yn ystod 2016 – 17, oni bai bod Swyddfa Archwilio Cymru yn argymell newidiadau iddo. Cafodd y Datganiad ei arwyddo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

## 8. CYFRIFON TERFYNNOL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31.3.16)

Cyflwynwyd adroddiad gan W E Jones oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd. Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân. Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig, sef Deloitte, (archwilwyr allanol a benodwyd gan Gyngor Gwynedd) yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2016 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oherwydd newid yn y drefn, oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig. Ni chafwyd ymholiadau ynglŷn a'r Cyfrifon ac fe gafodd y dogfennau perthnasol eu harwyddo gan y Cadeirydd ar ran Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**